

RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithiol o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ddydd Llun, 14 Chwefror 2022

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm dydd Iau, 17 Chwefror, 2022. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm dydd Iau, 24 Chwefror, 2022. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ddydd Gwener, 25 Chwefror, 2022.

Presennol: Cyngorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAGS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams.

Hefyd yn bresennol: Cyngorwyr Jeff Evans, Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Aled Morris Jones.

Ymddiheuriadau: Dim

(10:00 y.b. - 10:55 y.b.)

| | |
|--------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 3 Cofnodion Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd cadarnhau fod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2022 yn gywir. |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | Amherthnasol |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | Amherthnasol |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | Amherthnasol |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | Amherthnasol |

| | |
|------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd cymeradwyo'r Blaen Raglen Waith wedi'i diweddarau am y cyfnod rhwng Mawrth a Hydref 2022 gyda'r newid ychwanegol a'i amlinellwyd yn y cyfarfod. |

| | |
|--------------------------------|------------------------------------------------------------|
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | Cryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen. |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | Dim |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | Dim |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | Oes |

| | |
|--------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 5 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020/21 Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gyfer 2020/21 fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad. |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | Cymeradwyo'r cyfrifon yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | Dim |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | Dim |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | Oes |

| | |
|------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 6 Rhent Tai CRT a Thaliadau Gwasanaethau Tai 2021/22 Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol - <ul style="list-style-type: none"> Cynnydd rhent yn unol â pholisi rhent Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gasglu dros 51 wythnos. |

| | |
|--------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| | <ul style="list-style-type: none"> • Cynnydd o 2.25% + £2.00 yr wythnos yn yr holl renti sydd islaw'r bandiau targed er mwyn parhau i weithio tuag at gwrdd â'r rhent targed. • Cynnydd o 2.25% yn yr holl renti sydd ar darged. • Bod y rhent ar gyfer y 226 eiddo sydd â rhent uwch na'r lefel targed yn aros fel y mae. • Cynnydd o 27c yr wythnos ar gyfer rhenti pob garej. • Bod y taliadau gwasanaeth a nodir yn adran 3.3 o'r adroddiad yn cael eu codi ar bob tenant/ |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | Cymeradwyo Rhent Tai CRT a Thaliadau Gwasanaeth Tai ar gyfer 2022/23 |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | Dim |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | Dim |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | Oes |

| | |
|--------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 7 Ymateb i'r Her Dai Lleol - Strategaeth Tai 2022-27 Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd cymeradwyo'r Strategaeth Dai ar gyfer 2022 - 2027. |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | Cymeradwyo a gosod cyfeiriad ar gyfer amcanion a gweithgaredd Tai ar yr Ynys |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | Dim |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | Dim |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | Oes |

| | |
|--------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 8 Effaith Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus 2000 (PSVAR) ar werthu seddi gwag ar drafndiaeth ysgol / coleg Adroddiad gan Bennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd na ddylai'r Awdurdod godi ffi teithio ar ddisgyblion anstatudol a myfyrwyr addysg bellach Ynys Môn - <ul style="list-style-type: none"> • tan ddechrau fis Hydref 2025 gydag opsiwn o ymestyn am hyd at ddwy flynedd arall (petai rheoliadau PSVAR yn newid yn ystod y cyfnod yma gellir ail edrych ar hyn) • Bod yr Awdurdod yn parhau gyda'r cynllun seddi gweigion yn seiliedig ar gapasiti ar gyfer y blynyddoedd hynny. Ar gyfer y flwyddyn academaidd yma mae'r Awdurdod wedi cynnig y Cynllun Seddi Gweigion ar fysiau ysgol (dyma'r Cynllun, cyn y flwyddyn academaidd yma a oedd yn gwerthu seddi gwag ar drafndiaeth ysgol i ddisgyblion anstatudol) am ddim. |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | Mynd i'r afael ag effaith Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus 2000 (PSVAR) ar seddi gwag ar gludiant ysgol/coleg |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | Y Cynghorwyr Carwyn Jones a Llinos Medi |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | Dim |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | Oes |

| | |
|------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 9 Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019: Trefniadau Gweithredu Adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd argymhell i'r Cyngor Llawn - |

| | |
|---------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| | <ul style="list-style-type: none"> • Ddirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd er mwyn awdurdodi swyddogion perthnasol i arfer, yn ôl yr angen, gweithredu'r pwerau gorfodi statudol hynny o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 ar ran y Cyngor yma. • Rhoi'r hawl i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ddirprwyo swyddogion Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd i gymryd camau priodol ar ran y Cyngor hwn i orfodi darpariaethau'r Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019, drwy'r gwasanaeth a elwir yn Rhentu Doeth Cymru. |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | Sicrhau bod y pwerau gorfodi statudol perthnasol o dan y Ddeddf yn cael eu defnyddio'n briodol. |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | Dim |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | Dim |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | Amherthnasol. Penderfyniad ar gyfer y Cyngor Llawn. |